**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD YNYS MÔN 2026**

Cystadleuaeth 93 – Deuawd neu Driawd Cerdd Dant Bl.10 a dan 19 oed

# Tonnau Cariad, Casi Wyn

Ymhell o dan y dyfroedd
gorffwysa morwyn dlos
yn gaeth i'w chragen fregus
o fore gwyn tan nos.
Rhyw ddiwrnod ar ei theithiau
drwy'r dyfroedd dyfnion, du
fe ddaliwyd pen ei chynffon
mewn clymau geirwon, cry'.

Ei chalon fach sy'n drymaidd
wrth geisio diodde'r boen
a'i chorff yn sownd mewn rhaffau
yn gwasgu am ei chroen.
O'r düwch fe ddaw golau
yn fflam i gynnau'r nos
i ddatod clymau fyddai'n
rhyddhau'r fôr forwyn dlos.

Daeth dwylo anghyfarwydd
i wrando ar ei chri
gan ddangos môr o gariad
at forwyn fach y lli.
"Dyma gyfeillgarwch sydd
am uno tir a môr
gan greu'r alawon harddaf
yn symffoni o gôr!"

Yn nhonnau maith eu cariad
fe welai'r ddwy yn siŵr
mai di ond drwy gyd-weithio
y deuai hedd i'r dŵr.
"Mae'n amser imi adael
mi ddois i wneud fy rhan;
mi fydda i'n gwylio drosot
a'th warchod di o'r lan."